# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Awst 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau mae'r Ymddiriedolaethau Iechyd neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cymryd i sicrhau bod staff yn cael eu rhyddhau ar gyrsiau dysgu Cymraeg. (WAQ27626) **W R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau a gymerwyd yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan Fwrdd yr Iaith a Chyngor Defnyddwyr Cymru yn ystod Haf 2000, a oedd yn tanlinellu lle ymylog yr iaith Gymraeg ym maes iechyd a gofal. (WAQ27627) **W R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog yn cefnogi'r syniad o gynnal ymchwiliad i ddarganfod beth yw'r lefelau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gwasanaethau cymdeithasol drwy Gymru. (WAQ27628) **W R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa arweiniad a roddir i golegau iechyd parthed recriwtio myfyrwyr sydd yn siarad Cymraeg. (WAQ27629) **W R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau mae'r Ymddiriedolaethau Iechyd neu'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cymryd er mwyn cynnig hyfforddiant 'Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg' i aelodau staff. (WAQ27630) **W R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu cyfrifon cyllideb manwl ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol am y flwyddyn ariannol bresennol. (WAQ27632) **W R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod y sawl sydd yn gwneud cyrsiau hyfforddi ym maes iechyd a gofal yn derbyn gwybodaeth ynglyn â chyrsiau ymwybyddiaeth iaith. (WAQ27633) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** Pa strategaethau sydd gan gyrff allweddol ym maes gwaith cymdeithasol, megis Cyngor Gofal Cymru, i sicrhau bod gan y gweithlu gofal sgiliau digonol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ27637) **W**

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Oes cynlluniau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno profion Diabetes rheolaidd i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. (WAQ27656)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Oes cynlluniau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i benodi gweithwyr cymdeithasol i gynorthwyo pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn eu cymunedau. (WAQ27657)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o Diabetes ymysg pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ27658)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig â Diabetes yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ27659)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr achosion o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig â Diabetes yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ27660)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaethau Diabetes Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth lawn i amgylchiadau penodol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ27661)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gyfleusterau cyfieithu sydd ar gael ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n defnyddio'r GIG yng Nghymru. (WAQ27667)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yng ngoleuni adolygiad diweddar Wanless o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a wnaiff y Gweinidog groesawu’r defnydd o ffonau symudol sy’n galluogi clinigwyr i anfon lluniau pelydr x at gydweithwyr er mwyn cael ail farn. (WAQ27668)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Leanne Wood (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ariannu goruchwyliaeth addas mewn canolfannau cyswllt yn Nghymru o gofio bod y Mesur Trais yn y Cartref yn egluro trefniadau i ariannu canolfannau o’r fath yn Lloegr ond nad oes cyfeiriad at drefniadau tebyg yng Nghymru. (WAQ27631)

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a fydd y dull 'Prove It' a ddatblygwyd gan y New Economics Foundation a Groundwork ar gyfer asesu llwyddiant mewn adfywio cymunedau yn cael ei ddefnyddio i werthuso llwyddiant cynlluniau Cymunedau yn Gyntaf. (WAQ27638)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogi cyfleusterau cymunedol ar gyfer cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ27662)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau cymunedol ar gyfer pobl hn o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ27663)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod yna raglen cyfrifiadurol sy'n galluogi talu taliadau CAP 2001 hwyr. (WAQ27634) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd yn delio gyda'r ôl-groniad o daliadau CAP 2001 hwyr. (WAQ27635) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar daliadau CAP 2001 hwyr. (WAQ27636) **W**

**Leanne Wood (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'r gweinidog wedi eu cymryd i sicrhau bod profion sgrinio iechyd geist a chwn bridio yn cael eu cynnal mewn cyfleusterau bridio cwn ledled Cymru. (WAQ27641)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rheolau Ewropeaidd sydd yn dynodi uchafswm y gefnogaeth ariannol y medr llywodraeth gyfrannu tuag at gynllun anifeiliaid trig yn ystod y blynyddoedd: 2003, 2004, 2005 a 2006. (WAQ27645) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amserlen sefydlu cynllun anifeiliaid trig. (WAQ27646) **W**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa fesurau newydd fydd y Gweinidog yn eu cyflwyno i amddiffyn cynnyrch organig o Gymru. (WAQ27647)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau bydd y Gweinidog yn eu cymryd i atal cynhyrchu cnydau GM ar raddfa fasnachol hyd nes y bydd gweithdrefnau a phrosesau'n bodoli i warchod ffermwyr organig yng Nghymru. (WAQ27648)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Pryd fydd holl ffermwyr Cymru wedi derbyn y cymorthdaliadau oedd yn daladwy iddynt yn 2002. (WAQ27649)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar gyfraniadau'r Cynulliad, y gwahanol adrannau amaethyddol o fewn y Deyrnas Gyfunol, a'r diwydiant amaethyddol, tuag at yr elfennau: casglu a difa, yn ystod y tair blynedd cyntaf o'r cynllun anifeiliaid trig. (WAQ27652) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Yn ychwanegol i ateb y Gweinidog parthed WAQ26275, WAQ26276 a WAQ26277, beth oedd canlyniadau yr

astudiaethau a ariannwyd gan Adran yr Amgylchedd ar y pryd (Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn ddiweddarach) i fonitro'r llif genynnau rêp a addaswyd yn enetig. (WAQ27653) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Yn ychwanegol i ateb y Gweinidog parthed WAQ26275, WAQ26276 a WAQ26277, pa astudiaethau, a ariannwyd gan Adran yr Amgylchedd ar y pryd (Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn ddiweddarach) i fonitro'r llif genynnau rêp a addaswyd yn enetig, gafodd eu cynnal yng Nghymru. (WAQ27654) **W**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ27604, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar: (i) pryd y gall cyfranogwyr yn y Cynllun ddisgwyl derbyn eu taliadau a (ii) y rhesymau am yr oedi wrth brosesu taliadau'r chwech sy'n hawlio arian dan y Cynllun. (WAQ27666)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru’r rhai a dderbyniodd arian o gronfa’r Offeryn Ariannol Cyfarwyddyd Pysgodfeydd (FIFG) yn 2001-2002 a 2002-2003 ac egluro diben y taliadau hynny. (WAQ27669)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro sut mae hi'n bwriadu cyllido'r ymrwymiad ym Maniffesto'r Llywodraeth na fydd ffioedd dysgu ychwanegol yn bodoli yng Nghymru. (WAQ27643)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Beth yw'r dyraniad a bennwyd ar gyfer Cymunedau yn y Cymoedd o dan Flaenoriaeth (5) 4 yn Rhaglen Amcan Un. (WAQ27639)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o wardiau yn y Cymoedd sydd wedi eu pennu fel rhai 'gwledig' at ddibenion ceisiadau Amcan Un, a pha rai ydynt. (WAQ27640)

**Leighton Andrews (Rhondda);** A oes modd defnyddio cyllid Amcan Un i gefnogi'r gwaith o adfer adeiladau i'w defnyddio gan y gymuned, er enghraifft adeiladau rhestredig ac adeiladau sy'n cynrychioli treftadaeth ddiwydiannol Cymru megis adeiladau sefydliad y glowyr ac adeiladau'r meysydd glo. Os felly, o dan ba gategori y byddai ceisiadau'n cael eu derbyn ac a oes unrhyw enghreifftiau o hyn, os oes, beth yw'r enghreifftiau hynny. (WAQ27642)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiddymu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. (WAQ27650)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a

gafwyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch diddymu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r penderfyniad i weinyddu cyllid Ewrop o fewn y Cynulliad. (WAQ27651)

**Elin Jones (Ceredigion);** A gafodd unrhyw un o Gadeiryddion Pwyllgorau Monitro Amcan 1, 2 neu 3, a weinyddir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), wybod am y penderfyniad i gael gwared â WEFO a gweinyddu cyllid Ewropeaidd yn y Cynulliad cyn cyhoeddiad y Gweinidog i The Western Mail ar 24 Gorffennaf 2003. (WAQ27655)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r cyrff perthnasol ynghylch gwella'r cyfleusterau yng ngorsaf reilffordd Bae Colwyn a sicrhau bod yr orsaf yn lanach ac yn ddiogelach. (WAQ27664)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r cyrff perthnasol ynghylch gwella gwasanaethau trên yn y Gogledd. (WAQ27665)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Pryd fydd y Gweinidog yn gallu cadarnhau dyddiad etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2004. (WAQ27644)